

Pecyn Gwybodaeth

ar gyfer penodiad y
Dirprwy Brif Gwnstabl

Cyflog: £117,690 y flwyddyn



Heddlu Gogledd Cymru

Prif Gwnstabl,
Swyddfa'r Prif Gwnstabl,
Bae Colwyn LL29 8AW



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

Cynnwys

Rhagair gan y Prif Gwnstabl	3
Gogledd Cymru'n Gryno	4
Manylebau Rôl	6
Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd	11
Telerau ac Amodau	17
Proses Ddethol	20

Dyddiadau Allweddol

Dyddiad	Gweithgarwch
04.12.2018	Ffenest recriwtio ar agor
20.12.2018	Diwrnod ymgwyfarwyddo
07.01.2019	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau
08.01.2019	Llunio rhestr fer
30.01.2019	Fforymau rhanddeiliaid
30.01.2019	Cyfweliad ffurfiol i gynnwys cyflwyniad ar bwnc a roddwyd o flaen llaw
30.01.2019	Adborth o'r fforymau i'r Panel Dethol
31.01.2019	Penderfyniad y Prif Gwnstabl ar ymgeisydd llwyddiannus
01.02.2019	Cychwyn gwiriadau cyn cyflogaeth (prawf meddygol/ffitrwydd, prawf biometreg, asesiad Cymraeg, cyffuriau, fetio a geirda

Rhagair y Prif Gwnstabl



Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich diddordeb yn rôl Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

Nod y pecyn hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am Ogledd Cymru, y broses recriwtio, y gwerthoedd, cymwyseddau a meini prawf sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd.

Rwyf yn chwilio am arweinydd eithriadol gyda hanes plismona cryf, credadwy a phroffesiynol gyda sgiliau rheoli newid. Dylent allu fy nghynorthwyo a'm herio wrth arwain sefydliad sydd â bron i 3000 o swyddogion, staff, aelodau o'r heddlu gwirfoddol a gwirfoddolwyr.

Rwyf yn ddiweddar wedi dechrau gwaith i adnewyddu ein gweledigaeth, perwyl, diben a blaenoriaethau. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddiffinio beth a wnawn fel sefydliad a lle rydym eisiau bod yn y dyfodol. Canlyniad allweddol fydd gweledigaeth sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarparwn, gyda mesurau i ddangos sut yn gwneud gwahaniaeth a hyrwyddo rhagoriaeth mewn plismona.

Fel aelod allweddol o'r tîm prif swyddogion byddwch yn gyfrifol am arwain rhywfaint o'r newid sefydliadol sy'n codi o'r gwaith hwn. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn y lle gorau posibl i gyflawni'n erbyn ei flaenoriaethau a diben.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar fod yn sefydliad mwy effeithlon, gwydn ac addasadwy. Sefydliad sy'n barod i ymdrin â heriau sy'n dod i'r amlwg ac yn y dyfodol, cyflwyno datrysiadau arloesol wedi'u teilwra i amgylchiadau ein cymunedau lleol amrywiol, ac ysbrydoli hyder ac ymddiriedaeth.

Rydym yn chwilio am fodel rôl i hyrwyddo'r gwerthoedd a amlinellwyd yng Ngweledigaeth Plismona 2025 ac i chwarae rôl hanfodol mewn gyrru trawsnewidiad y gwasanaeth.

Byddwch yn arddangos arweinyddiaeth ragorol i'n gweithlu drwy gyfnod o newid a chydweithio gyda'n partneriaid.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ymroddedig i fod yn sefydliad dwyieithog. Bydd disgwyl i chi felly arddangos agwedd gadarnhaol at y Gymraeg.

Ymgeisiwch gyda ffurflen gais at SSF.Recruitment@nthwales.pnn.police.uk

Unwaith eto, diolch am ystyried Heddlu Gogledd Cymru a dymunaf bob llwyddiant i chi gyda'ch cais.

Carl Foulkes
Prif Gwnstabl

Gogledd Cymru'n Gryno

Ystyrir Gogledd Cymru yn un o'r llefydd mwyaf prydferth i fyw ynddo ac i ymweld ag ef yn y DU. Mae'r ardal yn cynnwys 6,3000 cilometr sgwâr yn ymestyn o Bronington yn y dwyrain i Aberdaron yn y Gorllewin ac o Fae Cemaes yn y Gogledd i Aberdyfi yn y De.

Mae ardal yr Heddlu yn cynnwys chwe sir ddaearyddol sef Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam gan wasanaethau poblogaeth o 687,000. Mae ganddi tua 1,506 o swyddogion heddlu, 220 o swyddogion cefnogi cymuned ynghyd â staff o 955. Mae'r ardal yn cael ei gwasanaethu gan un Bwrdd Iechyd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Gwasanaeth ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r ardal hon hefyd yn cael ei gwasanaethu gan yr Ymddiriedolaeth Prawf Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mae'r ardal yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig yn cynnwys dwy ddinas, Parc Cenedlaethol Eryri, dau borthladd arwyddocaol (Caerdybi ar Ynys Môn a Mostyn yn Sir y Fflint), ardaloedd diwydiannol sy'n ehangu (yn bennaf yn y Dwyrain a Wylfa Newydd ar Ynys Môn) a nifer o drefi prysur, a nifer ohonynt yn denu nifer fawr o ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf.

Ardaloedd Plismona Lleol Gogledd Cymru



1. Ynys Môn
2. Gogledd Gwynedd
3. De Gwynedd
4. Gorllewin Conwy Arfordirol
5. Conwy a Dinbych Wledig
6. Dinbych Arfordirol ac Abergele
7. Gogledd Sir y Fflint
8. De Sir y Fflint
9. Tref Wrecsam
10. Wrecsam Wledig



Hanes

Mae yng Ngogledd Cymru gyfoeth o hanes naturiol a dynol i'w archwilio a'i fwynhau. Mae'r ardal yn enwog am ei chestyll Edwardaidd ond mae yma hefyd aneddiadau Celtaidd, caerau Rhufeinig a phlastai Tuduraidd. Mae Conwy, Caernarfon a Harlech yn Safleoedd Treftadaeth y Byd ac yn sicr yn haeddu ymweliad.



Digwyddiadau Diwylliannol

Mae'r Eisteddfod yn wyl deithiol felly mae pob blwyddyn yn wahanol – ond mae'r awyrgylch byrlymus yn rhan o'r hwyl bob amser.

Yr Eisteddfod yw prifwyl pobl Cymru, ac mae'n gymysgedd arbennig o gerddoriaeth, llenyddiaeth, diwylliant, dawns, theatr a llawer mwy. Er bod elfennau traddodiadol iawn i'r Eisteddfod, mae'r wyl yn ifanc ei hysbryd ac yn hwyliog, gyda gweithgareddau ymylol di-rif, a daw'r traddodiadol a'r amgen ynghyd i greu awyrgylch unigryw - awyrgylch 'Steddfod!

Hamdden ac Antur

Os oes gennych ddiddordeb mewn cerdded, beicio, dringo, merlota, brigdonni, sgïo dŵr, canwïo, saethu colomennod clai, golff neu abseilio - maen nhw i gyd ar gael yma.

Ar wahân i rai o'r golygfeydd mwyaf godidog yn y byd, mae mynyddoedd gogledd Cymru yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau amser hamdden megis dringo, cerdded, gwylïo adar, ogofâu a cherdded ceunentydd. Os nad oes yr un o'r rhain yn apelio atoch, gallwch o hyd goncro'r Wyddfa, y mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr - ar droed, neu ar y trê!

Addysg

Mae cyfleoedd dysgu gydol oes heb eu hail ar gael yng ngogledd Cymru. Ymhlith y sefydliadau addysgol mwyaf blaenllaw mae Prifysgol Bangor, sydd ymysg yr 20% gorau o brifysgolion y DU, a choleg addysg bellach Llandrillo Menai sydd wedi'i raddio'n 'ardderchog' gan arolygwyr y llywodraeth. Mae yma hefyd ysgolion cynradd ac uwchradd rhagorol gyda maint y dosbarthiadau'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 25.5 disgybl fesul dosbarth.

Bwyd a diod

Mae bwyd a diod Gogledd Cymru yn gyfuniad blasus o'r modern a'r traddodiadol. Gwelir caffis palmant, bistros a bwytai cwrw ochr yn ochr â thafarndai traddodiadol a bwytai o'r radd flaenaf. Mae cynnyrch o fri, gan gynnwys y cig oen gorau, cwrw o fragdai lleol a chynnyrch organig, ar gael ar y trothwy.

Ffordd o Fyw

Gall Gogledd Cymru wneud honiadau unigryw ynghylch ei golygfeydd godidog a'i chyfoeth o atyniadau eraill, ond y ffordd o fyw yn sicr yw ei hatyniad pennaf.

Manylebau Rôl

Diben y Rôl:

Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cynorthwyo'r Prif Gwnstabl i arwain yr Heddlu. Maent yn cynorthwyo wrth greu gweledigaeth, cyfeiriad a diwylliant i'r Heddlu sy'n creu hyder ac ymddiriedaeth cyhoeddus a sefydliadol. Mae'n galluogi cyflwyno gwasanaeth plismona effeithiol.

Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn meddu atebolrwydd gweithrediadol uniongyrchol am ymateb yr heddlu i droseddau a digwyddiadau difrifol a'i reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol.

Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn gyfrifol am weithredu a chyflwyno Cynllun Cyflawni'r Heddlu a chynnal yr Heddlu o ddydd i ddydd yn unol â'r cyfeiriad a'r weledigaeth a gytunwyd. Mae hyn er mwyn darparu gwasanaeth plismona proffesiynol, effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cyfrannu at ddatblygu plismona rhanbarthol a chenedlaethol o fewn maes arbenigedd penodol. Gall fod yn atebol am weithrediadau cenedlaethol neu osod safonau.

Atebolrwydd Allweddol:

Cyfrannu at osod strategaeth sefydliadol a gweithrediadol yr Heddlu, gan ystyried cynlluniau ac amcanion ehangach fel y Cynllun Heddlu a Throsedd a'r Gofyniad Plismona Strategol. Mae hyn er mwyn darparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon sy'n bodloni galwadau plismona heddiw ac yn y dyfodol.

- Cynorthwyo a chynnal y berthynas strategol gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Swyddfa'r CHTh sy'n gynhyrchol i'r ddwy ochr, gan gynnal egwyddor annibyniaeth weithrediadol y Prif Gwnstabl.
- Cynorthwyo'r Prif Gwnstabl i arwain yr Heddlu, gan osod y diwylliant sefydliadol a hyrwyddo gwerthoedd a moeseg. Meddu cyfrifoldeb am lynu at safonau proffesiynol er mwyn galluogi effeithiol a phroffesiynol.
- Arwain gweithredu Cynllun Cyflawni'r Heddlu, gan sicrhau y monitir a gwerthusir gyda chanfyddiadau wedi'u defnyddio i yrru gwelliannau mewn cyflwyno gwasanaeth a chyflawni amcanion yr Heddlu.
- Cynorthwyo'r Prif Gwnstabl i arwain, ysbrydoli ac ymgysylltu tîm y Prif Swyddogion. Gosod a modelu rôl agweddau i ddiwylliant gweithlu sy'n hyrwyddo llesiant, hwyluso datblygiad proffesiynol effeithiol i greu timau awdurdodedig sy'n gallu cyflawni gweledigaeth ac amcanion yr Heddlu'n effeithiol.

- Datblygu arweiniad a darparu cyfarwyddyd strategol ar nodi a rheoli bygythiad, risg a niwed o fewn y maes plismona ac ymatebion plismona'r Heddlu er mwyn gwarchod y cyhoedd a datblygu strategaethau gweithrediadol.
- Cyflawni cyfrifoldebau awdurdodi Dirprwy Brif Gwnstabl, gan fod yn gyfrifol am gydymffurfio er mwyn gwarchod y cyhoedd a sicrhau ymatebion plismona effeithiol.
- Arwain a rheoli ymatebion plismona gweithrediadol ar brydiau, yn yr achosion sydd â'r risg mwyaf a mwyaf amlwg. Mae hyn er mwyn gwarchod y cyhoedd a sicrhau ymateb priodol ac effeithiol.
- Datblygu a chynnal fframwaith cyflawniad gweithrediadol a strwythur llywodraethu ystyrlon, yn unol â strategaeth yr Heddlu, er mwyn meddu uwch arweinyddiaeth y sefydliad. Mae hyn er mwyn ateb cyflawniad a chanlyniadau gweithrediadol er mwyn galluogi gorfodi'r gyfraith a gwarchod y cyhoedd yn effeithiol.
- Cynorthwyo rheolaeth ariannol yr Heddlu, gan yrru effeithlonrwydd a chynhyrchiant o fewn fframwaith y gyllideb er mwyn gwneud y mwyaf o ddefnydd o adnoddau, gan sicrhau defnydd effeithiol o wariant cyhoeddus a gwneud y mwyaf o werth am arian.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau strategol gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dylanwadu a chydweithredu'n effeithiol er mwyn gallu cyflawni amcanion yr Heddlu. Datblygu hyder y cyhoedd mewn plismona.
- Cynrychioli'r Heddlu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i'r cyhoedd, y cyfryngau a rhanddeiliaid allanol eraill. Mae hyn er mwyn cynorthwyo'r Prif Gwnstabl i wella amlygrwydd, cysylltu â'r cyhoedd a chreu hyder mewn plismona.
- Gosod diwylliant o ddatblygiad sefydliadol, newid ac arloesedd, sicrhau gwell cynhyrchiant, gwerth am arian a gwelliant parhaus mewn plismona tystiolaeth.
- Datblygu meddwl, polisi a chanllaw cenedlaethol o fewn maes arbenigedd. Mae hyn er mwyn galluogi gwelliant parhaus arfer plismona effeithiol.
- Ymgymryd â grymoedd a dyletswyddau'r Prif Gwnstabl yn ôl yr angen yn eu habsenoldeb.

Addysg, Cymwysterau, Sgiliau, a Phrofiad

Addysg a phrofiad blaenorol

- Llwyddo i gwblhau'r Ganolfan Asesu Cenedlaethol Heddlu Uwch (PNAC) a'r Cwrs Rheolaeth Strategol (SCC).
- Hyfforddiant Swyddog Awdurdodi
- Profiad helaeth o orfodi'r gyfraith yn weithrediadol.
- Hanes amlwg o brofiad llwyddiannus o weithio ar lefel strategol, gan gynnwys arwain swyddogion gorfodi'r gyfraith a staff ar lefelau uwch.
- Profiad o lwyddo i ymgysylltu gydag a dylanwadu partneriaethau amlasiantaeth.

- Profiad o osod fframwaith rheoli cyflawniad yn effeithiol.
- Profiad o weithredu datblygiad, newid ac arloesedd sefydliadol yn llwyddiannus.
- Profiad o reoli cyllidebau sylweddol.
- Meddu'r wybodaeth blismona weithrediadol/technegol ddiweddaraf.
- Gwybodaeth am ddatblygu ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol a dealltwriaeth o'r goblygiadau am gynllunio strategol.
- Gwybodaeth am bolisiâu, strategaethau a mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dealltwriaeth am y goblygiadau o fewn y cyd-destun plismona.

Sgiliau

- Sgilgar yn natblygiad strategaeth a pholisi uchelgeisiol, wedi'i alinio i realiti gweithrediadol.
- Gallu creu cynlluniau gweithrediadol sy'n cydbwysu galwadau adnoddau cymhleth ac anghyson a galluogi cyflawni amcanion strategol.
- Gallu rheoli adnoddau ariannol, pobl a deunyddiau sylweddol, gan arddangos lefel uchel o graffter masnachol i gydbwysu cymhleth, galwadau cystadleuol ar adnoddau drwy wneud penderfyniadau risg priodol o fewn y gyllideb ar gael.
- Gallu gyrru newid sefydliadol strategol sy'n ail-siapiro'r gwasanaethau a swyddogaethau a gyflwynwyd gan yr Heddlu, er mwyn cyflwyno ymatebion priodol i dueddiadau a phroblemau sy'n dod i'r amlwg.
- Gallu bwrw golwg ar y gorwel mewnol ac allanol, gan nodi tueddiadau a phroblemau sy'n dod i'r amlwg a'u defnyddio i hysbysu cynllunio strategol.
- Gallu gweithredu gyda lefelau uchel o dreiddgarwch gwleidyddol, yn sgilgar mewn trafod y byd gwleidyddol yn fewnol ac allanol yn effeithiol.
- Gallu defnyddio ystod eang o gyfathrebu hynod effeithiol a dylanwadu technegau a dulliau i lwyddo i drafod, cydweithredu a dylanwadu newid ar lefelau uwch a ledled ystod amrywiol o randdeiliaid.
- Sgilgar mewn cynnal rôl ymgynghorydd hanfodol effeithiol i swyddi uwch.
- Sgilgar mewn creu a chynnal cysylltiadau rhanddeiliaid ar lefelau uwch yn gallu datrys problemau a datrys gwrthdrawiadau buddiant.
- Sgilgar mewn arwain, datblygu ac ysbrydoli pobl, gan ymgysylltu'r sefydliad gyda blaenoriaethau, gwerthoedd ac ymddygiadau strategol yr Heddlu.
- Gallu adlewyrchu ar a dwyn eu hunain, unigolion a'r sefydliad yn atebol am gyflawniad ac ymddygiadau.
- Gallu nodi, comisiynu a gweithredu technolegau/gwasanaethau newydd neu well sydd ag effaith trawsnewidiol ar gyflawniad a/neu gost gwasanaeth yr Heddlu.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Mae Fframwaith DPP uwch arweinwyr wedi'i ddatblygu sy'n nodi tair elfen bwysig y dylai Prif Swyddogion ei ystyried wrth gynllunio eu DPP.

Dylai Prif Swyddogion adlewyrchu ar eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd eisoes yn bodoli er mwyn nodi a chynllunio eu datblygiad proffesiynol ar y cyd â'r enghreifftiau canlynol. Isod mae rhai enghreifftiau a awgrymwyd ond nid ydynt yn hirfaith:

Sgiliau Personol

- Datblygiad proffesiynol parhaus model rôl ac arwain drwy esiampl drwy rannu dysgu ac adlewyrchiadau i gynorthwyo proffesiynoli'r gwasanaeth heddlu.
- Cynnal gwybodaeth am ddamcaniaeth arwain a rheoli strategol a pharhau i adlewyrchu ar gymhwyso ymarferol yn y cyd-destun plismona gweithrediadol.
- Ystyried cyfranogiad mewn cyfleoedd secondiad i fagu safbwyntiau diffygiol ar arweinyddiaeth a rheoli, lle bo'n briodol.
- Cyfranogi mewn hyfforddi a/neu fentora cyfleoedd ar gyfer eu hunain ac eraill i ddefnyddio a rhannu'r dysgu i hysbysu agwedd eu hunain ac eraill i arweinyddiaeth, rheoli a phlismona.

Sgiliau Busnes

- Cynnal ymwybyddiaeth fasnachol a chreu craffter ariannol drwy weithio'n agos gyda phartneriaid ac aml-asiantaethau ar lefel leol a chenedlaethol, lle bo'n briodol gan fanteisio ar gysgodi a/neu gyfleoedd secondiad.
- Cynnal gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau rheoli cyflawniad, gan gynnwys dulliau dadansoddi data a sut y gall cyflawniad gael ei feincnodi'n lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Cyfrannu at ymchwil tystiolaeth drwy gynnal ymchwil a dadansoddiad o broblemau plismona gweithrediadol i ddatrys problemau a chynorthwyo proffesiynoli a thrawsnewid plismona.
- Creu a chyfranogi mewn rhwydweithiau cyfoedion a setiau dysgu gweithrediadol er mwyn galluogi agweddau at ddatrys problemau ar y cyd, rhannu dysgu'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gynorthwyo moderneiddio, effeithlonrwydd a pharhad.


Sgiliau Proffesiynol

- Cynnal gwybodaeth o Ganllaw Coleg Plismona, arfer gorau a mentrau cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i'r cyd-destun plismona strategol.
- Cynnal a diweddarau gwybodaeth a dealltwriaeth allweddol i gymhwyso deddfwriaeth, polisi ac arfer ledled holl feysydd plismona swyddogaethol o gyfrifoldeb gweithrediadol.

- Cynnal gwybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau a datblygiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol i hysbysu cynlluniau plismona strategol. Galluogi agwedd effeithlon ac effeithiol i blismona a sicrhau fod yr heddlu yn gallu ymdrin â throseddau, bygythiadau a blaenoriaethau newydd a datblygedig.
- Gweithio gydag asiantaethau a chyrff plismona cenedlaethol, fel Arolygaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHEM), Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA) a'r Coleg Plismona er mwyn sicrhau fod yr heddlu'n cynnal safonau proffesiynol.
- Cwblhau holl hyfforddiant blynyddol a gorfodol i gadw achrediad galwedigaethol a gweithrediadol.

Rhinweddau Personol gofynnol

Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd Plismona



Gwerthoedd

Tegwch

- Yr wyf yn ystyried anghenion a gofynion yr unigolyn yn fy holl weithredoedd.
- Yr wyf yn deall nad yw trin pawb yn deg yn gyfystyr â thrin pawb yr un peth
- Yr wyf bob tro yn rhoi cyfle cyfartal i bobl fynegi eu barn.
- Yr wyf yn cyfathrebu gyda phawb, yn gwneud yn siŵr fod y neges fwyaf perthnasol yn cyrraedd pawb.
- Yr wyf yn gwerthfawrogi barn pawb drwy wrando'n weithredol i ddeall eu safbwynt.
- Yr wyf yn gwneud penderfyniadau teg a gwrthrychol gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau posibl.
- Yr wyf yn galluogi pawb i gael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth ble mae'n addas.

Uniondeb

- Yr wyf yn ymddwyn yn unol â gwerthoedd gwasanaeth yr heddlu a'r Cod Moeseg er budd y cyhoedd
- Yr wyf yn arddangos dewrder wrth wneud y peth iawn, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd heriol
- Yr wyf yn cynyddu enw da fy sefydliad a'r gwasanaeth plismona ehangach drwy eu gweithredoedd a'u hymddygiad.
- Yr wyf yn herio cydweithwyr sy'n defnyddio iaith, yn ymddwyn ac yn arddangos agweddau sy'n disgyn yn is na disgwyliau'r cyhoedd a'r gwasanaeth.
- Yr wyf yn agored ac yn barod i ymateb i heriau am eu gweithredoedd a'u geiriau.
- Yr wyf yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau ar y cyfle cyntaf.
- Yr wyf yn barchus o'r awdurdod a'r dylanwad sy'n dod yn sgil fy safle.
- Yr wyf yn defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon ac nid er mwyn manteisio'n bersonol.

Gwerthoedd

Gwasanaeth Cyhoeddus

- Rwyf yn ymddwyn er budd y cyhoedd yn gyntaf oll.
- Rwyf yn cael fy ysgogi i wasanaethu'r cyhoedd gan sicrhau fy mod yn darparu'r gwasanaeth orau posibl pob tro.
- Rwyf yn ceisio deall anghenion eraill ac yn ymddwyn er eu budd gorau.
- Rwyf yn addasu ar gyfer anghenion a phryderon cymunedau gwahanol.
- Rwyf yn cyfathrebu mewn ffordd sy'n addas i fy nghynulleidfa ac yn barchus ohonynt.
- Rwyf yn ystyried sut mae pobl eraill eisiau cael eu trin wrth ymdrin â nhw.
- Rwyf yn trin pobl yn barchus beth bynnag yw'r amgylchiadau.
- Rwyf yn rhannu'r clod gyda phawb sy'n darparu gwasanaethau.

Tryloywder

- Rwyf yn sicrhau bod fy rhesymeg wrth wneud penderfyniadau yn glir ac wedi derbyn ystyriaeth fel ei fod yn hawdd i'w ddeall gan eraill.
- Rwyf yn eglur ac yn gynhwysfawr wrth gyfathrebu ag eraill.
- Rwyf yn agored ac yn onest am y meysydd yr wyf angen eu datblygu ac rwyf am ymdrechu i wella.
- Rwyf yn rhoi cyflwyniad cywir o fy ngweithredoedd a'm cofnodion.
- Rwyf yn cydnabod gwerth adborth ac yn newid o'i herwydd.
- Rwyf yn cynnig adborth adeiladol a chywir.
- Rwyf yn deg ac yn gywir wrth gyflwyno barn eraill.
- Rwyf yn gyson ac yn gywir wrth gyfathrebu.
- Rwyf yn cadw'r amodau cyfrinachedd yn briodol.

Cymhwysedd

Rydym yn emosiynol ymwybodol

- Rwyf yn ceisio deall y rhesymau tymor-hir dros ymddygiad sefydliadol. Mae hyn yn galluogi mi i addasu a newid diwylliant sefydliad pan yn addas.
- Rwyf yn weithredol wrth sicrhau diwylliant sefydliadol sy'n gefnogol ac yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth a llesiant ac yn herio anoddefgarwch.
- Rwyf yn deall gwleidyddiaeth fewnol ac allanol ac yn barod i ddefnyddio fy nylanwad yn effeithiol gan deilwra fy ngweithredoedd er mwyn ymgynraedd yr effaith sydd ei angen.
- Rwyf yn gallu gweld pethau o sawl persbectif ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i herio ffordd fy hun o feddwl, fy ngwerthoedd a'm tybiadau.
- Rwyf yn sicrhau bod pob persbectif yn fodd i gefnogi yn y broses o wneud penderfyniad ac i gyfathrebu'r rhesymau dros y penderfyniadau mewn modd sy'n glir ac yn ysgogol.

Rydym yn cymryd perchnogaeth

- Rwyf yn gweithredu fel rhywun i'w efelychu ac yn galluogi'r sefydliad i ddefnyddio adegau pan mae pethau'n mynd o chwith i ddysgu yn hytrach na beio.
- Rwyf yn meithrin diwylliant o gyfrifoldeb personol, yn annog ac yn cefnogi eraill i wneud eu penderfyniadau eu hunain a chymryd perchnogaeth a'u gweithredoedd.
- Rwyf yn diffinio ac yn gweithredu safonau a gweithdrefnau fydd o gymorth i wneud hyn ddigwydd.
- Rwyf yn gosod mesurau yn eu lle fydd yn caniatáu eraill i gymryd cyfrifoldeb pan fyddaf yn gofyn iddynt wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ac ar yr un pryd yn rhoi cymorth iddynt wella eu perfformiad.
- Rwyf yn creu'r amgylchiadau (diwylliant a phroses) fydd yn galluogi pobl i ymgymryd â chyfluoedd datblygu ac yn gwella eu perfformiad.
- Rwyf yn arddel canfyddiad dros yr holl sefydliad ac yn cydnabod ble mae angen gwneud gwelliannau a chyfrifoldeb am sicrhau bod y rhain yn digwydd.

Cymhwysedd

Rydym yn gydweithredol

- Rwyf yn wleidyddol ymwybodol ac yn deall gwleidyddiaeth ffurfiol ac anffurfiol ar y lefel cenedlaethola beth mae'r hyn yn ei olygu i'n partneriaid. Mae hyn yn caniatáu i mi greu cysylltiadau tymor-hir a gweithio'n effeithiol o fewn strwythurau gwneud penderfyniadau.
- Rwyf yn cael gwared a rhwystrau ymarferol i gydweithrediad er mwyn galluogi eraill i gymryd camau ymarferol i adeiladu perthnasau tu allan i'r sefydliad ac mewn sectorau eraill (cyhoeddus, gwirfoddol, a phreifat).
- Rwyf yn arwain mewn partneriaethau pan yn addas ac yn gosod y cywair er mwyn i sefydliadau partner eraill allu rhyngweithio gyda'r heddlu. Mae hyn yn caniatáu i'r heddlu chwarae rhan llawer mwy wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau.
- Rwyf yn creu amgylchedd ble mae gweithio mewn partneriaeth yn ffynnu ac yn creu manteisiol gwirioneddol i bawb.

Rydym yn gweithredu, cefnogi ac yn ysbrydoli

- Rwyf yn herio fy hun ac eraill i gadw yn y cof weledigaeth y gwasanaeth heddlu i ddarparu'r gwasanaeth orau posibl wrth wneud pob penderfyniad.
- Rwyf yn cyfathrebu sut mae'r weledigaeth ehangach yn ymgysylltu gyda chynlluniau penodol ac amcanion fel bod pobl yn cael eu hysgogi ac yn deall ein hamcanion yn glir.
- Rwyf yn sicrhau bod pawb yn deall eu rôl wrth roi cymorth i'r gwasanaeth heddlu gyflawni'r weledigaeth.
- Rwyf yn rhagdybio ac yn nodi rhwystrau i'r sefydliad sy'n rhwystro'r gwasanaeth heddlu rhag cyrraedd eu hamcanion, gan ddarparu ar gyfer hapddigwyddiadau neu gael gwared â nhw.
- Rwyf yn monitro newidiadau yn yr amgylchedd allanol ac yn gweithredu i ddylanwadu lle mae'n bosibl i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.
- Rwyf yn arddangos ffordd o feddwl tymor-hir strategol sy'n mynd tu hwnt i amcanion personol ac yn ystyried sut mae'r gwasanaeth heddlu yn gweithredu yn yr amgylchedd ehangach cymdeithasol ag economaidd.
- Rwyf yn sicrhau bod fy mhenderfyniadau yn gytbwys gydag anghenion fy ngwasanaeth yr heddlu fy uned i gydag anghenion ehangach y gwasanaeth heddlu a phartneriaid allanol.
- Rwyf yn ysgogi ac annog eraill i gyflawni amcanion heriol.

Cymhwysedd

Rydym yn dadansoddi'n feirniadol

- Rwyf yn cloriannu risg, cost a manteision sy'n gysylltiedig gyda phenderfyniadau gan feddwl am yr effaith ehangach a sut mae gweithredoedd yn cael eu gweld yn y cyd-destun yna. Rwyf yn meddwl am sefyllfaoedd 'beth pe tai'.
- Rwyf yn defnyddio fy marn yn ddoeth wrth wneud penderfyniadau gan wybod nad yr hyn sydd wedi gweithio o'r blaen yw'r ffordd orau pob tro ac yn barod i herio'r 'status quo'.
- Rwyf yn ceisio nodi rhesymau allweddol dros ddigwyddiadau, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd aneglur neu amwys.
- Rwyf yn defnyddio fy ngwybodaeth o'r amgylchedd ehangach a sefyllfaoedd tymor-hir i wneud penderfyniadau.
- Rwyf yn cydnabod bod rhai penderfyniadau yn gallu cynrychioli newid sylweddol. Rwyf yn meddwl sut i gyflwyno newidiadau o'r fath ac ennill cefnogaeth

Rydym yn arloesi ac yn cadw meddwl agored

- Rwyf yn gweithredu, profi a rhannu dulliau newydd a phellgyrhaeddol o weithio sy'n gallu newid ein diwylliant, agweddau a pherfformiad sefydliadol yn llwyr.
- Rwyf yn rhoi lle a chefnogaeth i fod o gymorth i eraill sefyll yn ôl o weithgareddau dydd-i-ddydd, er mwyn adolygu eu cyfeiriad, agwedd a sut maent yn gweld eu rôl o fewn plismona. Mae hyn yn gymorth iddynt fabwysiadu persbectif newydd a nodi gwelliannau.
- Rwyf yn gweithio'n ddiflino i greu diwylliant o ddysgu, sy'n nodi ac yn hyrwyddo gweithgareddau arloesol.
- Rwyf yn arwain, profi a gweithredu syniadau sy'n ymwneud â nifer o randdeiliaid, creu effaith sylweddol a gyrru newid tu hwnt i fy nghylch dylanwad arferol
- Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth heddlu yn aros yn gyfredol ac ar flaen plismona bydol.

Telerau ac Amodau

Bydd y swydd yn atebol i'r telerau ac amodau canlynol:

Telerau Apwyntiad

Penodir y Dirprwy Brif Gwnstabl am gyfnod sefydlog cychwynol hyd at 5 mlynedd i'w drafod gyda'r Prif Gwnstabl.

Meddygol

Mae'r penodiad yn amodol ar brawf meddygol boddhaol ac mae trefniadau wedi'u gwneud hyn i wneud hyn i ddigwydd gydag Ymgynghorydd Meddygol yr Heddlu cyn dyddiad y penodiad.

Fetio

Bydd y penodiad yn amodol ar fetio wedi'i ddatblygu'n foddhaol.

Cyflog

Diffinnir tâl ar gyfer y swydd hon o fewn y raddfa genedlaethol a gytunwyd gan Fwrdd Trafod yr Heddlu a'i gadarnhau gan yr Ysgrifennydd Cartref. Cyflog blynyddol o **£117,690** yn amodol ar sgiliau a phrofiad a thrafodaeth ar benodiad.

Oriau Gwaith

Ni fydd oriau gwaith yn llai na 40 awr yr wythnos ac fel y mae maent eu hangen i gyflawni gofynion y swydd, yn amodol ar ofynion y Gyfarwyddeb Amser Gweithio. Fodd bynnag, bydd gan y deiliad swydd gyfrifoldeb am gynrychioli'r gwasanaeth a bodloni gofynion statudol a gweithrediadol, yn aml ar fyr rybudd, a fydd efallai yn gofyn gweithio oriau ychwanegol o dro i dro. Gan fydd deiliad y swydd yn meddu cyfrifoldebau Prif Swyddog, mae gofyniad i fod ar gael 24 awr y diwrnod. Mae'r rôl hon yn gofyn gweithio gyda'r nosau a phenwythnosau gan gynnwys mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau yn ystod yr amseroedd hyn a mynychu digwyddiadau difrifol a digwyddiadau gweithrediadol eraill ar fyr rybudd.

Gwyliau Blynyddol

Bydd gan ddeiliad y swydd hawl i wyliau blynyddol yn ôl Rheoliadau'r Heddlu: 42 neu 48 diwrnod y flwyddyn yn ddibynnol ar wasanaeth perthnasol.

Lleoliad Gwaith

Gweithle arferol deiliad y swydd fydd ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru ym Mae Colwyn. Fodd bynnag, bydd natur y gwaith hefyd yn gofyn am lawer o deithio'n genedlaethol. Felly byddwch angen trwydded yrru lawn.

Y Gymraeg

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ymroddedig i fod yn sefydliad dwyieithog. Bydd disgwyl i chi felly arddangos agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg.

Yn unol â Pholisi Sgiliau Cymraeg Heddlu Gogledd Cymraeg cyn i gynnig o benodiad gael ei wneud, os nad ydych eisoes yn siarad Cymraeg bydd disgwyl i chi gyflawni Lefel 2 mewn Cymraeg llafar.

Yn ei hanfod mae hyn yn golygu y gallwch ddeall ac ynganu enwau a phobl Cymru fel gallu ddeall a defnyddio ymadroddion Cymraeg llafar bob dydd. Mae'r holl ddeunydd ategol sy'n angenrheidiol i fodloni'r gofyniad hwn ar gael ar wefan yr Heddlu. Bydd gofyn i chi hefyd arddangos sgiliau llafar Lefel 3 o fewn 12 mis o ddechrau'n y rôl.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae disgwyl i chi gynnal eich gwybodaeth a datblygiad proffesiynol gan gynnwys eich ffitrwydd corfforol, yn unol â fframwaith DPP y Coleg Plismona yn unol â gofynion datblygedig y swydd. Bydd disgwyl i chi gwblhau'r prawf ffitrwydd cenedlaethol yn flynyddol.

Fel yn ôl Cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yr Heddlu, gwnaiff y Prif Gwnstabl adolygu eich gallu a chyflawniad yn y rôl ar sail a benderfynwyd yn flaenorol gyda chi lle cewch adborth perthnasol a/neu os oes angen canllaw.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ymrwymo i greu cyfleoedd cyfartal i fod aelod o staff ac i sicrhau bod cymunedau Gogledd Cymru yn derbyn gwasanaethau plismona effeithiol yn cynnwys y rheini sydd â nodweddion sydd wedi eu diogelu.

Darparu a defnyddio technoleg gwybodaeth

Darperir holl ofynion TG fel sy'n angenrheidiol, er enghraifft ffôn symudol, gliniadur, ayyb.

Costau llinell ffôn cartref

Bydd yr Heddlu yn cynnig band eang yn y modd mwyaf cost effeithiol.

Yswiriant Broffesiynol ac aelodaeth

Gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru fodloni'r gost o'r yswiriant adweithiol gwarchod cyfreithiol blynyddol ac aelodaeth gan Gymdeithas Staff Prif Swyddogion yr Heddlu (CPSOA).

Yswiriant Iechyd

Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn bodloni cost aelodaeth cynllun meddygol preifat. Byddant yn talu am y gost flynyddol o ran yswiriant i chi (fel deiliad swydd) a'ch cymar. Mae gennych yr opsiwn i brynu yswiriant ychwanegol o ran eich plant yr ydych yn talu amdano eich hun.

Cerbyd Personol

Fel Dirprwy Brif Gwnstabl, mae gennych yr hawl i gael cerbyd o'ch dewis ar gyfer defnydd proffesiynol a phreifat. Bydd gofyn i chi dalu am y tanwydd a ddefnyddir pan fyddwch yn ei ddefnyddio yn breifat. Lwfans personol y car yw hyd at £10,393 (gyda chwyddiant blynyddol yn cael ei ychwanegu bob mis Medi).

Diogelwch

Bydd yr Heddlu yn trefnu arolwg diogelwch llawn o'ch tŷ ac fel lleiafswm yn gosod larwm ac adnodd monitro lle bo angen, ynghyd â storio offer a phapurau yn ddiogel.

Adleoliad

Nid oes angen adleoli i ardal yr heddlu ond rhaid i ddeiliad y swydd allu cyrraedd Pencadlys Bae Colwyn neu un Pencadlys Rhanbarthol o fewn amser rhesymol i'w gytuno gyda'r Prif Gwnstabl.

Os bydd Dirprwy Brif Gwnstabl yn adleoli yn unol â gofynion y penodiad i Heddlu Gogledd Cymru, yna bydd Heddlu Gogledd Cymru yn talu costau rhesymol yn ôl Rheoliadau'r Heddlu, gan gynnwys y canlynol:

- Cost resymol symud a storio;
- Ffioedd cyfreithwyr a gwerthwyr tai - o fewn band o gostau disgwylidig - yn gwaredu'r hen gartref;
- Ffioedd cyfreithwyr a gwerthwyr tai - o fewn band costau disgwylidig - wrth brynu eiddo newydd;
- Gwariant ymweliadau teulu i weld y darpar gartref newydd;
- Gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru dalu holl gostau rhesymol sy'n codi o werthu a phrynu tŷ Dirprwy Brif Gwnstabl a holl rwymedigaethau treth sy'n codi o unrhyw becynnau adleoli fel nad oes anfantais ariannol personol i'r Dirprwy Brif Gwnstabl.

Proses ddethol

Datganiad Gweithredu Positif

Rydym yn benodol yn annog ceisiadau gan ferched, pobl anabl ac ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (BAME), gan fod y grwpiau hyn yn cael eu tangynrychioli ar lefel uwch o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Cam 1: Bydd y broses o ddethol Dirprwy Brif Gwnstabl yn dechrau drwy gyflwyno ffurflen gais wedi'i lawrlwytho o dudalen swyddi gwag gwefan allanol Heddlu Gogledd Cymru <https://www.north-wales.police.uk/recruitment-home>. Rhaid i holl geisiadau gael eu cyflwyno erbyn hanner nos **07/01/2019**. Gofynnir i ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u haddasrwydd, sgiliau a phrofiad ar gyfer y swydd gan ddefnyddio'r proffil proffesiynol a geir o fewn y pecyn hwn.

Cam 2: Bydd hyn yn cynnwys dau faes asesu. Gofynnir i'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer gyfranogi mewn fforwm rhanddeiliaid mewnol lle gofynnir iddynt gwestiynau perthnasol gan aelodau o Heddlu Gogledd Cymru o ran eu profiad o rôl Uwch Arweinydd yn y sector Cyfiawnder Troseddol a'u hagwedd gydweithredol i gyflwyno gwasanaethau plismona gwych. Dilynr hyn gan gyfweiliad ffurfiol, lle bydd gofyn i ymgeiswyr wneud cyflwyniad i'r panel. Bydd pwnc y cyflwyniad yn cael eu rhoi o flaen llaw i ganiatáu ymgeiswyr i gael y cyfle i baratoi.

Ni ddylai'r cyfweiliad fod ddim hirach nag 1 awr o hyd lle gofynnir i chi am eich addasrwydd ar gyfer rôl Dirprwy Brif Gwnstabl. Cewch eich asesu yn erbyn y Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd a geir yn y pecyn hwn. Mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer **30/01/2019** ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru, Bae Colwyn.

Bydd y panel cyfweld ffurfiol yn cynnwys:

- Cadeirydd - Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru Carl Foulkes
- Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys Mark Collins
- Judith Greenhalgh - Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Ddinbych
- Stephen Hughes - Prif Swyddog Gweithredol SCHTh
- Gill Lewis - Aelod Annibynnol

Cam 3: Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cynnig amodol ac yn ymgymryd â'r gwiriadau cyn cyflogaeth canlynol:

- Meddygol
- Ffitrwydd
- Profi biometreg
- Asesiad Cymraeg Lefel 2
- Cyffuriau
- Fetio
- Cyfeirnodau

Cam 4: Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau yn y swydd ar Mehefin 2019.

Dalier sylw oherwydd ymrwymïadau gweithrediadol gall y dyddiadau hyn fod yn amodol i newid

Addasiadau rhesymol a llety

Mae'n bwysig eich bod yn ystyried yn y cyfnod cynnar os hoffech ofyn am drefniadau a wnaiff eich cynorthwyo wrth gwblhau'r broses ddethol. Ystyrir unrhyw geisiadau am addasiadau rhesymol a'u trefnu cyn belled â phosibl. Trinnir y wybodaeth hon gyda'r cyfrinachedd mwyaf. Os hoffech unrhyw gymorth neu wybodaeth bellach, e-bostiwch ssf.recruitment@nthwales.pnn.police.uk ar y cyfle cyntaf.



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales